# CYFARFOD PENDERFYNIADAU ARWEINYDD Y CYNGOR

**DYDD** Mawrth, 12 Medi 2017

**YN BRESENNOL: Y Cynghorydd:** E. Dole (Aelod o’r Bwrdd Gweithredol).

**Roedd y swyddogion canlynol yn bresennol yn y cyfarfod:**
M. Bull, Rheolwr y Rhaglen Strategol Adfywio Ffisegol;
S. Walters, Rheolwr Datblygu Economaidd;
J. Hancock, Swyddog Datblygu Mentrau Cymdeithasol Blaenllaw;
L Milward, Cydgysylltydd Prosiect
Y Pellegrotti. Cydgysylltydd Prosiect
M.S. Davies, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd.

**Ystafell yr Arweinydd, County Hall, Carmarthen - 2.15 p.m - 2.45 pm**

**1. DATGAN BUDDIANNAU PERSONOL**
Ni chafwyd dim datganiadau o fuddiant personol.

**2. COFNOD PENDERFYNIADAU - 20 GORFFENNAF, 2017**
**PENDERFYNWYD llofnodi bod cofnod penderfyniadau'r cyfarfod a gynhaliwyd ar 20 Gorffennaf 2017 yn gofnod cywir.**

**3. CYMORTH ARIANNOL O'R CRONFEYDD GRANTIAU CANLYNOL: GRANT CRONFA'R DEGWM**
**PENDERFYNWYD cymeradwyo'r ceisiadau canlynol am gymorth o Gronfa'r Degwm yn amodol ar y telerau a'r amodau arferol ac ar y rhai a bennwyd yn yr adroddiad:**

| Ymgeisydd | Dyfarniad |
|---|---|
| Cyngor Plwyf Eglwysig Neuadd Eglwys Brechfa | £1,980.76 |
| Capel y Bedyddwyr - Aberduar | £3,000.00 |
| Eglwys y Santes Fair, Cwrt-henri | £1,740.50 |

**4. ADRODDIADAU NAD YDYNT I'W CYHOEDDI**
**PENDERFYNWYD yn unol â Deddf Llywodraeth Leol 1972, fel y'i diwygiwyd gan Orchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad at Wybodaeth) (Amrywio) (Cymru) 2007, na fyddai’r eitemau canlynol yn cael eu cyhoeddi, gan fod yr adroddiadau'n cynnwys gwybodaeth eithriedig fel y'i diffiniwyd ym Mharagraff 14 o Ran 4 o Atodlen 12A i’r Ddeddf.**

**5. CRONFA MENTRAU GWLEDIG SIR GAERFYRDDIN - CABANAU PREN BACH - MARK WAGHORN**
**Ar ôl cynnal y prawf budd y cyhoedd PENDERFYNWYD, yn unol â'r Ddeddf y cyfeiriwyd ati yng nghofnod rhif 4 uchod, peidio â chyhoeddi cynnwys yr adroddiad gan ei fod yn cynnwys gwybodaeth eithriedig am faterion ariannol neu faterion busnes unigolyn penodol (gan gynnwys yr Awdurdod oedd yn meddu ar y wybodaeth honno) (Paragraff 14 o Ran 4 o Atodlen 12A i'r Ddeddf).**
**Yr oedd y prawf budd y cyhoedd o ran y mater hwn yn ymwneud â'r ffaith fod yr adroddiad yn cynnwys gwybodaeth fanwl am faterion a dyheadau**

**busnes ac ariannol yr ymgeiswyr. Yn yr achos hwn, yr oedd y budd i'r cyhoedd o ran cadw cyfrinachedd yn drech na'r budd i'r cyhoedd o ran tryloywder ac atebolrwydd, gan y byddai datgelu'r wybodaeth yn debygol o niweidio'r ymgeiswyr ar hyn o bryd.**

Bu'r Aelod o'r Bwrdd Gweithredol yn ystyried cais gan Mark Waghorn Architects Ltd., Llandeilo, am grant tuag at greu adeilad ffrâm dur ar gyfer gwneud cabanau pren bach ym Mharc Busnes Abermarlais, Llangadog, a fyddai'n creu 1.5 o swyddi amser llawn, yn ogystal â chreu 180$m^2$ o le cyflogaeth.

**PENDERFYNWYD cymeradwyo'r cais canlynol am gymorth o'r Gronfa Mentrau Gwledig Sir Gaerfyrddin yn amodol ar y telerau a'r amodau arferol ac ar y rhai a bennwyd yn yr adroddiad:-**

| <u>**Yr Ymgeisydd/Eiddo**</u> | <u>**Y Dyfarniad**</u> |
|---|---|
| Mark Waghorn Architects Ltd./<br>Parc Busnes Abermarlais, Llangadog | £15,707.30 |

**6. CRONFA MENTRAU GWLEDIG SIR GAERFYRDDIN - PRYD LTD**

**Ar ôl cynnal y prawf budd y cyhoedd PENDERFYNWYD, yn unol â'r Ddeddf y cyfeiriwyd ati yng nghofnod rhif 4 uchod, peidio â chyhoeddi cynnwys yr adroddiad gan ei fod yn cynnwys gwybodaeth eithriedig am faterion ariannol neu faterion busnes unigolyn penodol (gan gynnwys yr Awdurdod oedd yn meddu ar y wybodaeth honno) (Paragraff 14 o Ran 4 o Atodlen 12A i'r Ddeddf).**

**Yr oedd y prawf budd y cyhoedd o ran y mater hwn yn ymwneud â'r ffaith fod yr adroddiad yn cynnwys gwybodaeth fanwl am faterion a dyheadau busnes ac ariannol yr ymgeiswyr. Yn yr achos hwn, yr oedd y budd i'r cyhoedd o ran cadw cyfrinachedd yn drech na'r budd i'r cyhoedd o ran tryloywder ac atebolrwydd, gan y byddai datgelu'r wybodaeth yn debygol o niweidio'r ymgeiswyr ar hyn o bryd.**

Bu'r Aelod o'r Bwrdd Gweithredol yn ystyried cais gan Pryd Ltd., Glanyfferi, Caerfyrddin am grant tuag at adnewyddu ei safle newydd yng Nglanyfferi ac am fwyty a chaffi arfaethedig a fyddai'n creu 5.5 o swyddi amser llawn yn ogystal â sicrhau bod 173$m^2$ o le a oedd yn ddiangen yn flaenorol yn cael ei ddefnyddio at ddibenion economaidd eto.

**PENDERFYNWYD cymeradwyo'r cais canlynol am gymorth o'r Gronfa Mentrau Gwledig Sir Gaerfyrddin yn amodol ar y telerau a'r amodau arferol ac ar y rhai a bennwyd yn yr adroddiad:-**

| <u>**Yr Ymgeisydd/Eiddo**</u> | <u>**Y Dyfarniad**</u> |
|---|---|
| Pryd Ltd./ Adeilad Calon y Fferi, Glanyfferi | £11,635.20 |

**7. CRONFA DATBLYGU EIDDO MASNACHOL TRAWSNEWID SIR GAERFYRDDIN:SWYDDOG DATBLYGU JOLLY TAR, CAERFYRDDIN**

**Ar ôl cynnal y prawf budd y cyhoedd PENDERFYNWYD, yn unol â'r Ddeddf y cyfeiriwyd ati yng nghofnod rhif 4 uchod, peidio â chyhoeddi cynnwys yr adroddiad gan ei fod yn cynnwys gwybodaeth eithriedig am faterion ariannol**

**neu faterion busnes unigolyn penodol (gan gynnwys yr Awdurdod oedd yn meddu ar y wybodaeth honno) (Paragraff 14 o Ran 4 o Atodlen 12A i'r Ddeddf).**
**Yr oedd y prawf budd y cyhoedd o ran y mater hwn yn ymwneud â'r ffaith fod yr adroddiad yn cynnwys gwybodaeth fanwl am faterion a dyheadau busnes ac ariannol yr ymgeiswyr. Yn yr achos hwn, yr oedd y budd i'r cyhoedd o ran cadw cyfrinachedd yn drech na'r budd i'r cyhoedd o ran tryloywder ac atebolrwydd, gan y byddai datgelu'r wybodaeth yn debygol o niweidio'r ymgeiswyr ar hyn o bryd.**

Bu'r Aelod o'r Bwrdd Gweithredol yn ystyried cais gan Ymddiriedolwyr BMASSAS am grant amodol tuag at ddymchwel tafarn y Jolly Tar, Caerfyrddin ac adeiladu swyddfeydd pedwar llawr newydd a fyddai'n creu 43 o swyddi amser llawn yn Nhref Caerfyrddin yn ogystal â chreu 7725 troedfedd sgwâr o le cyflogaeth.

**PENDERFYNWYD cymeradwyo'r cais canlynol am grant amodol o Gronfa Datblygu Eiddo Masnachol Trawsnewid Sir Gaerfyrddin yn amodol ar y telerau a'r amodau arferol ac ar y rhai a bennwyd yn yr adroddiad:-**

| **Yr Ymgeisydd/Eiddo** | **Y Dyfarniad** |
|---|---|
| Ymddiriedolwyr BMASSAS/<br>Tafarn y Jolly Tar, Caerfyrddin | £707,366.98 |

______________________________ ______________________

**AELOD O'R BWRDD GWEITHREDOL** **DYDDIAD**